

# DAU GYMWYNASWR

gan MARI ELLIS

Yn ddiweddar, wrth glirio papurau yn y tŷ, deuthum ar draws dwy enghraifft o ymdrechion pobl diwedd y ganrif ddiwethaf i roddi cychwyn i ddisgu Cymraeg yn yr ysgolion.

Y gyntaf oedd taflen bedair tudalen ddwyieithog *Er cof am ein Llywelyn*, ac mewn cromfachau oddi tanodd *In memory of our Llywelyn*. Yna darlun cyfansawdd *Lle Cwynpodd Llywelyn*. Oddi mewn adroddir yr hanes yn Gymraeg ar un dudalen ac yn Saesneg ar y llall, a rhennir y dudalen olaf rhwng y ddwy iaith. Ar waelod yr wyneb-ddalen daw enw'r argraffwyr, Jarvis & Foster, Bangor.

Mewn llawysgrifen fân uwchben y teitl mae rhywun wedi sgrifennu, 'To be used in Elementary Schools'. Ond nid dyma'r cwbl. Gyda'r daflen mae llyfryn bach Saesneg, wedi'i gyhoeddi ar y cyd gan Jarvis & Foster a Simpkin Marshall, Llundain:

*Llywelyn ap Gruffydd ein Llyw Olaf. An Ode by Sir Lewis Morris Kt, M.A.*

Ar waelod y clawr nodir mai ar gais pwyllgor y gofeb y cyhoeddwyd y gerdd. Y pris oedd chwe cheiniog.

Pwyllgor y gofeb a ffurfiwyd yn 1891 oedd hwn; gweler llythyr gan Owen Owen, Croesoswallt, yn *Cymru* (O. M. Edwards) Cyf. 1, tud 71. Gŵr o'r enw Stanley Bligh a dalodd am y gofeb yn y diwedd. Adroddwyd yr hanes yn *Brycheiniog*, Cyf. 15, 1971, gan y diweddar Gwilym Evans.

Mi fyddai'n dda gennyf wybod llawysgrifen pwy sydd ar y ddalen a phwy a osoddod y gerdd a'r daflen gyda'i gilydd mewn amlen. Ymdrech glodwiw ydoedd i ennyn diddordeb blant ysgol yn hanes Cymru. Argraffwyd y gerdd yn gain, gyda clawr papur o liw glas golau sy'n fy atgoffa o lyfrynau'r Kelsmescot Press, William Morris.

Daw'r ail enghraifft o ben arall y wlad ac mae'n ddeunydd a fwriadwyd yn benodol ar gyfer ysgolion Cymru.

Cylchlythyr ydyw a anfonwyd i athrawon Cymru gan J. E. Southall, argraffwyd a chyhoeddwr o *Gasnewydd*, Gwent. Nid oes dyddiad arno. Ymgais ydoedd at ddiwallu'r angen am werslyfrau a llenyddiaeth ar gyfer dysgu Cymraeg. Mae'n rhestru pum taflen o adroddiadau Cymraeg ar gyfer gwahanol safonau:

Rhif 0. Addas i Safon I. 'Rhubin Goch', Llew Tegid; 'Plentyn y Bugail', Trefanydd.

## LLYWELYN AP GRUFFYDD LEIN LLYW OLAF

### AN ODE

BY  
SIR LEWIS MORRIS, KT., M.A.

HONORARY FELLOW OF JESUS COLLEGE, OXFORD; KNIGHT OF THE  
REDEEMER OF GREECE; CHAIRMAN OF THE NATIONAL  
EISTEDDFOD ASSOCIATION, & Co., &c.

LONDON  
SIMPKIN  
MARSHALL  
& Co., LTD.

BANGOR  
JARVIS & FOSTER  
LORNE HOUSE  
[All rights reserved]

*Wyneb-ddalen y llyfryn 6 cheiniog a gyhoeddwyd ar gais Pwyllgor y Gofeb.*

Rhif 1. Addas i Safon II. 'Rwy'n Mynd', Dewi Peris; 'Rhosyn Gwywedig', Tegidon.

Rhif 2. Addas i safonau III a IV. 'Y Dryw'; 'Yr Ehedydd a'r Cof syn', Ossian Gwent; 'Edward a Huw', Mynyddog.

Rhif 3. Eto ar gyfer safonau III a IV. 'Y Gwithyn'; 'Y Wenynen', Ossian Gwent.

Rhif 4. Ar gyfer safonau V a VI. 'Cymru'; 'Y Goleudy'; 'Fy Nith', Islwyn.

Ceiniog yr un oedd y taflenni, ar wahân i rif 4 oedd yn geiniog a dimai, gyda gostyngiad am nifer. Dywedir mai L. D. Jones, Bangor, a'u golygodd heblaw am rif 4 a olygwyd gan R. L. Davies, Alexandra Road Board School, Newport. Llew Tegid oedd L. D. Jones a dichon mai brawd-yng-nghyfraith John Davies, Ossian Gwent oedd R. L. Davies.

Taflenni 0, 1 a 3 yn unig sydd gennyf fi. 'School Recitations. No. 0' sydd ar ben y tudalen gyda lle i roi enw'r ysgol a'r disgybl. Tri phennill wyth llinell yw 'Rhubin Goch' a'r cyfieithiad ar ffurf penillion oddi tano heb ymgais i odli. Mewn nodyn awgrymir i'r athro egluro ystyr y darn ac unrhyw eiriau anghyfarwydd cyn i'r plant ddechrau dysgu'r adroddiad.

Chwe phennill sydd yn 'Plentyn y Bugail' a godwyd o

*Cymru'r Plant*. Yna'r cyfieithiad mewn rhyddiaith a geirfa Gymraeg-Saesneg yn dilyn.

Yn y daflen rhif 1 rhoddir hanes Dewi Peris yn y ddwy iaith. David Michael Jones o Lanberis ydoedd a bu farw yn 1891. Mae adroddiad Tegidon, 'Y Rhosyn Gwywedig' yn cynnwys deg o benillion ond ni roddir dim gwybodaeth am yr awdur. John Phillips (1810-77) ydoedd, awdur 'Hen Feibl Mawr fy Mam'.

Am fod rhif 2 yn eisiau ni welais y nodyn am Ossian Gwent y cyfeiriwyd ato yn rhif 3. Nodyn Saesneg yn unig sydd am Mynyddog, Richard Davies (1833-77). Rhagora dwy delyneg Ossian Gwent ar ei rigwm foeswersol, 'Edward a Huw'.

Ceir y pennawd *Islwyn Selections* ar daflen rhif 4 a nodiadau Saesneg ar y bardd gan R. L. Davies. Mae'r eirfa ar y diwedd yn llawnach, a dyfynnir englyn Taliesin o Eifion wrth gyfieithu'r gair *loer*.

Y glwys loer, fugeiles lân — o mae'n hardd  
Ar fin nos o'i chorfan  
'Ndyfod a'i mwyn defaid mân  
I geisio gŵr mewn gwisg anan.

Sais o Lanllieni (Leominster) oedd J. E. Southall a gychwynnodd fusnes argraffu yng Nghasnewydd yn 1879. Dechreuasai ddisgu Cymraeg cyn dyfod i fyw i Gymru, a

gwnaeth astudiaeth o ddulliau dysgu Cymraeg fel ail iaith. Ei lyfr enwocaf yw *Wales and her Language* (1892), sy'n cynnwys map ieithyddol o Gymru. Mynegodd ei anfdlonrwydd na byddai rhyw Gymro wedi gwneud astudiaeth o'r iaith o'i flaen. Mae fy nghopi i, a oedd yn eiddo i Tom Ellis, A.S., wedi'i rwymo'n arbennig mewn lledr gyda llun cenhinen mewn aur ar y clawr, a'r geiriau *Cymru, Cymry a Chymraeg a Gwell pwyll nag aur o'i chwmpas*.

Defnyddiodd Tom Ellis lawer ar y gyfrol wrth baratoi ei anerchiadau; gwelir ôl ei bensel ar ymyl sawl tudalen.

Cyhoeddodd Southall gyfresi o lyfrau darllen i ysgolion yn ddiweddarach.

Dyna ddau Sais, Southall a Stanley Bligh wedi gwneud eu rhan, tua chan mlynedd yn ôl, i roddi hwb i'r iaith Gymraeg. Anelent at blant ysgol am mai dyma'r ffordd, yn eu tyb hwy, i sicrhau dyfodol i siaradwyr Cymraeg a chreu ymwybyddiaeth o hanes Cymru yn y bobl gyffredin. O ran diwyg a chynnwys, nid yw eu hymdrechion i'w cymharu â llyfrau heddiw, ond peidiwn â dilomi'r dynion a fu'n ddiwyd yn y gwaith ar adeg pan oedd barn y wlad, yn Gymry a Saeson, yn elyniaethus. Oni bai amdanant hwy byddai'r frwydr wedi bod yn llawer caletach.

## AR WERTH

*Geiriadur Prifysgol Cymru*. Rhannau 1-43 (ond gyda rhifau 7, 10 a 27 yn eisiau).

W. H. Morris-Jones, 95 Ridgway, London SW19 4SX. Ffôn: 01-947 2874.

Ychydig gopïau yn unig o'r argraffiadau lledr arbennig o hardd o *Gwaed yr Uchelwyr* a *The Eve of Saint John* gan Saunders Lewis a gyhoeddwyd yn 1994 gan Bwyllgor Sir Gaernarfon o Gronfa Goffa Saunders Lewis. Dim ond 150 copi yr un o'r cyfrolau a gyhoeddwyd. Pris: £25 yr un, neu'r ddwy am £45. Eirug Wyn, Gwynllys, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd.

Ychydig o gopïau o *The New Kalendars of Gwynedd 1284-1993 incorporating lists of High Sheriffs, Lord Lieutenant* . . . Hywel F. Richards. Gwasg Gee, 1994. Pris: £29.50 + £2.50 am bacio a phostio.

*Llyfrau'r Castell, 48a Stryd Fawr, Cricieth, Gwynedd LL52 0EY*. Ffôn: 01766 522284